# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol

**CA(3)-03-11**

## CA523 : Deddf Safonau Gofal 2000 Rheoliadau (Hysbysu) (Cymru) 2011

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan Ddedd

f Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf"). Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cofrestru o ran Cymru at ddibenion Rhan 2 y Ddeddf. Mae adran 30A(2) o'r Ddeddf yn darparu bod rhaid i'r awdurdod cofrestru hysbysu, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr os yw'n cymryd unrhyw un neu ragor o'r camau a bennir yn adran 30A(2) yn erbyn person sy'n rhedeg neu'n rheoli sefydliad neu asiantaeth a bennir. Rhoddir yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn yr hysbysiadau hynny yn rheoliad 2. Mae adran 30A(3) yn darparu ar gyfer anfon hysbysiadau pellach pan fo'r awdurdod cofrestru'n dod yn ymwybodol o'r amodau rhagnodedig. Rhagnodir yr amodau yn rheoliad 3.

### Craffu Technegol

O dan Reol Sefydlog 15.2, bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn am y rhesymau a ganlyn:-

1.Nid yw nifer o'r pwerau y dibynnir arnynt er mwyn gwneud y Rheoliadau hyn wedi cael eu cychwyn ac eithrio at ddibenion gwneud rheoliadau. Gan eu bod i fod i ddod i rym ar 1 Ebrill 2011, mae'n hanfodol bod adrannau 30A(3) a (4) o'r Ddeddf yn cael eu cychwyn at y dibenion sy'n weddill cyn i'r Rheoliadau hyn ddod yn weithredol. [Rheol Sefydlog 15.2(ii)]

2.Mae adrannau 30A(3) a (4) o'r Ddeddf ond yn defnyddio'r term 'rhagnodedig'. Mae'r ffaith bod 'rhagnodedig' yn golygu rhagnodedig gan reoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru wedi cael ei chynnwys yn is-adran (7) ac felly, dylai'r is-adran honno hefyd fod wedi'i dyfynnu. [Rheol Sefydlog 15.2 (vi)]

3.Mae Rheoliadau 2(3) a 3(b) yn cynnwys y ffurf o eiriau a ganlyn: '(penderfynu i fabwysiadu neu hysbysiad i atal dros dro neu i ymestyn yr ataliad dros dro)'. Nid yw'n glir beth sydd i'w fabwysiadu. Mae astudiaeth o'r Ddeddf yn datgelu bod y geiriau 'a proposal' (cynnig) ar goll. [Rheol Sefydlog15.2 (v)]

### Craffu ar rinweddau

O dan Reol Sefydlog 15.3, ni fydd y Pwyllgor yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol**
**Ionawr 2011**

### Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:

'Yr wyf yn ddiolchgar i Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol am dynnu fy sylw at dri mater sy'n ymwneud â Rheoliadau Deddf Safonau Gofal 2000 (Hysbysu) (Cymru) 2011; ac y mae'r sylwadau sydd gennyf i'w gwneud fel a ganlyn:

1.Bydd yr is-adrannau perthnasol o adran 30A wedi eu cychwyn erbyn 1 Ebrill 2011, maent wedi eu cynnwys mewnGorchymyn Cychwyn sydd yn yr arfaeth.

2.O ran y cyfeiriad at is-adran (7) fel yr is adran sy'n nodi bod 'prescribed' i olygu 'prescribed by regulations made by the Welsh Ministers' - mae hyn wedi ei nodi.

3.Gan fod adran 30A o'r Ddeddf yn glir, nid oedd teimlad bod angen hyn, ond derbynnir y byddai cynnwys y gair 'cynnig' wedi ei wneud yn gliriach.